Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

# Grwpiau Ffocws Rhieni 2019/20

Crynodeb o'r materion a godwyd gan aelodau'r Grŵp Ffocws Rhieni – Tymor yr Hydref 2019

Dyddiad cyfarfod y Cyfnod Sylfaen, 3/12/19

Rhieni a oedd yn bresennol: Abi Hobson, Sara Morgan, Chris Griffiths a Chris Pinnington

Staff a oedd yn bresennol Mrs Southgate, Mrs Owen, Miss Richards, Miss White, Mrs Edwards, Mrs Bishop-Williams, Miss West, Mrs Griffiths a Mr Scourfield

1. Y neges gyffredinol gan rieni/warcheidwaid yw eu bod nhw'n hapus iawn â'r ysgol a bod eu plant hefyd yn hapus iawn yn dod i'r ysgol. Roedd rhieni am ddiolch i'r staff yn arbennig am eu holl ymdrechion wrth baratoi'r plant cystal ar gyfer y cyngherddau Nadolig a oedd yn wych.
2. Yn ôl nifer o rieni, mae rhai disgyblion wedi cwyno nad yw'r dŵr yn cael ei dynnu yn y toiledau ac o ganlyniad, nid yw'r plant am ddefnyddio'r cyfleusterau.
   Ymateb: Mae hon yn broblem barhaus y mae'r ysgol wedi ceisio'i datrys drwy atgyfnerthu pwysigrwydd arferion hylendid da gyda disgyblion a thrwy staff yn monitro'r toiledau'n rheolaidd. Fodd bynnag, ein disgyblion yn y pen draw sy'n gyfrifol am dynnu'r dŵr yn y toiledau a byddwn yn parhau i rannu'r neges hon gyda nhw.
3. Mae rhai rhieni wedi nodi bod nifer o sesiynau Clwb Lego wedi'u canslo'n ddiweddar o ganlyniad i Nosweithiau Rhieni a chyngherddau Nadolig, gan arwain at anghyfartalwch yn nifer y sesiynau a dderbyniodd disgyblion yn ystod yr hanner tymor 1af o'i gymharu â'u cyfoedion a aeth i'r Clwb Lego yn ystod yr 2il hanner tymor.
   Ymateb: Yn anffodus, mae nifer o ddisgyblion wedi colli cyfleoedd yn ystod yr hanner tymor hwn yn sgîl canslo clybiau a bydd yr ysgol yn ceisio osgoi hyn yn y dyfodol drwy gynllunio o flaen llaw â'r nod o ddosbarthu sesiynau'n fwy cytbwys yn hytrach nag ar sail bob hanner tymor.
4. Mae nifer cynyddol o rieni wedi mynegi eu hanfodlonrwydd â safon y ffotograffau unigol a theuluol diweddar gan Colorfoto, gydag enghreifftiau o ddisgyblion â'u llygaid ar gau, gwallt anniben etc.
   Ymateb: Er bod yr ysgol wedi ymrwymo i gytundeb â Colorfoto ar gyfer gweddill y flwyddyn hon, byddwn yn edrych ar bob opsiwn arall ac yn ystyried y dewisiadau amgen sydd ar gael. Yn y cyfamser, trosglwyddir eich sylwadau

i Colorfoto.

5. Mae rhai rhieni wedi'i chael hi'n anodd cael ateb ar ffôn swyddfa'r ysgol tua diwedd y diwrnod ysgol.
   Ymateb: Er bod staff y swyddfa yn gwneud pob ymdrech i ateb pob galwad ffôn, mae achlysuron pan fo hyn yn anodd oherwydd y galwadau amrywiol ar y rôl. Gyda chynifer o rieni'n parhau i ffonio'r ysgol yn hwyr yn y dydd gyda newidiadau i amserau codi plant/trefniadau cludo, mae'r staff yn aml yn gorfod gadael y swyddfa er mwyn hysbysu athrawon dosbarth o'r trefniadau hyn. Yr unig beth y gallwn ni ei wneud yw gofyn i rieni hysbysu'r ysgol mor gynnar â phosib o newidiadau i drefniadau casglu ac, os nad ydych yn llwyddo i gael ateb gan y swyddfa ar unwaith, rhowch gynnig arall mewn 5 munud
   *Peidiwch â gadael negeseuon am drefniadau casglu'ch plentyn ar y peiriant ateb.
6. Nodwyd bod rhai o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dod adref yn lân iawn, a phrin iawn yw'r dystiolaeth o chwarae y tu allan ar eu dillad.
   Ymateb: Mae chwarae y tu allan yn chwarae rôl gynyddol yn amserlen wythnosol ein disgyblion a chyda'r dillad gwrth-ddŵr a brynwyd yn ddiweddar gan Ffrindiau YGG Pontybrenin, y gobaith yw y gellir datblygu hyn ymhellach yn y misoedd i ddod.
7. Mae rhieni wedi croesawu cau'r gatiau mawr wrth fynedfa Heol Casllwchwr i'r ysgol yn ddiweddar, ac wedi gofyn a all hyn fod yn barhaol, gan fod rhieni a disgyblion yn teimlo gwell ymdeimlad o ddiogelwch pan fo'r gatiau hyn ar gau i gerbydau.
   Ymateb: Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y gatiau hyn ar gau yn ystod cyfnodau prysuraf y dydd.

Dyddiad cyfarfod Cyfnod Allweddol 2 - 4/12/19

Rhieni a oedd yn bresennol: Kate Jones a Chris Pinnington

Staff a oedd yn bresennol; Miss Dark, Mrs Sartori, Miss Davies, Mrs Parkhouse, Miss Walker, Miss Gwenter a Mr Scourfield

1. Nid yw disgyblion yn darllen eu llyfrau darllen mor aml ag y dylent ac mae ansawdd cyffredinol rhai o'r llyfrau darllen hyn yn wael.
   Ymateb: Er yr anogir disgyblion i newid eu llyfrau darllen yn rheolaidd, dydyn nhw ddim bob amser yn gwneud hyn. Bydd yr ysgol yn amserlenni rota penodol a fydd yn sicrhau bod llyfrau'n cael eu newid yn rheolaidd. Mae rhai disgyblion wedi'i chael hi'n anodd newid eu llyfrau pan na allant ddod o hyd i'r llyfr nesaf yn y cynllun darllen oherwydd y cafwyd bylchau mewn rhai lefelau

o'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi buddsoddi dros £3000 mewn llyfrau darllen newydd yn ddiweddar ac wedi cael gwared ar lyfrau gwael eu hansawdd.

2. Nid yw'r llyfrau Cyswllt Cartref/Ysgol yn cael eu gwirio'n rheolaidd ac mae rhieni'n ansicr o'u pwrpas.
   Ymateb: Diben y llyfrau cyswllt yw i alluogi rhieni/gwarcheidwaid a staff i rannu negeseuon anffurfiol â'i gilydd a hefyd i weithredu fel cofnod darllen. Fodd bynnag, os yw rhieni wedi ysgrifennu neges i'r athro dosbarth ei darllen, yna mae'n bwysig bod y plentyn yn hysbysu'r athro bod neges yn y llyfr. Ni ellir disgwyl i athrawon dosbarth gasglu a gwirio llyfr cyswllt pob plentyn yn ddyddiol. Lle bo'n briodol, bydd athrawon yn ymateb i'r negeseuon ar y diwrnod y cânt eu derbyn.
3. Mae nifer cynyddol o rieni wedi mynegi eu hanfodlonrwydd â safon y ffotograffau unigol a theuluol diweddar gan Colorfoto, gydag enghreifftiau o ddisgyblion â'u llygaid ar gau, gwallt anniben etc.
   Ymateb: Er bod yr ysgol wedi ymrwymo i gytundeb â Colorfoto ar gyfer gweddill y flwyddyn hon, byddwn yn edrych ar bob opsiwn arall ac yn ystyried y dewisiadau amgen sydd ar gael. Yn y cyfamser, trosglwyddir eich sylwadau i Colorfoto.
4. Mae rhieni'n dal i fod yn ddiolchgar iawn fod disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ymweld â'r llyfrgell bob mis ac yn cael y cyfle i fenthyca llyfrau er pleser.
5. Gofynnwyd y cwestiwn gan rai rhieni a allent gael sgorau profion sillafu wythnosol eu plant?
   Ymateb: Er y byddai athrawon yn fwy na pharod i rannu sgorau profion sillafu â rhieni unigol, byddai gwneud hynny'n cymryd gormod o amser gwerthfawr. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn fwy nag abl i rannu sgorau'r profion â'u rhieni ac mae'r diwrnodau 'dathlu fy ngwaith' amrywiol a nosweithiau rhieni hefyd yn darparu cyfle i rieni weld cynnydd sillafu eu plant.
6. Yn dilyn y cyngherddau diweddar, mynegodd nifer o rieni eu bod yn siomedig ag Eglwys St Catherine fel lleoliad cyngherddau. Y brif broblem oedd nad oeddent yn gallu clywed y perfformwyr yn siarad.
   Ymateb: Er nad yw'r acwsteg yn Eglwys St Catherine yn wych, nid yw'r gynulleidfa'n gallu clywed y perfformwyr oherwydd maint y lleoliad a'r system sain. Rwy'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod yr eglwys yn lleoliad perffaith ar gyfer cyngerdd Nadolig. Fodd bynnag, rydym yn ystyried newid strwythur/amserlen ein cyngherddau Nadolig eleni a byddwn yn cadw hyn mewn cof wrth ddewis lleoliadau ar gyfer mis Rhagfyr.
7. Mae nifer o ddisgyblion yn gorfforol iawn wrth chwarae ar yr iard yn ystod amser egwyl/amser cinio ac yn niweidio'u hunain ac eraill yn y broses.
   Ymateb: Er y gall disgyblion, ar adegau, fod yn gorfforol iawn wrth chwarae, mae'r staff sy'n goruchwylio ar yr iard yn eu hannog i beidio â gwneud hyn. Mae'r buddsoddiad diweddar mewn rhagor o gyfarpar chwarae wedi arwain at chwarae mwy strwythuredig a'r gobaith yw y bydd hyn yn lleihau digwyddiadau pellach.
8. Mae'r amrywiaeth o glybiau allgyrsiol y tymor hwn wedi cael eu croesawu gan

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

rieni a disgyblion.

9. Mae rhai rheini wedi mynegi eu siom gyda'r opsiynau sydd ar gyfer cinio ysgol ac yn synnu braidd ar y cyfuniadau o fwyd a weinir i ddisgyblion.
   Ymateb: Bydd bob amser achlysuron pan fydd rhai disgyblion yn troi eu trwyn ar ginio ysgol ac yn dweud nad ydynt yn hoffi'r hyn sy'n cael ei gynnig. Fodd bynnag, mae disgyblion yn Ninas a Sir Abertawe yn ffodus o gael dewis o brydau ar bob diwrnod o'r wythnos (2 ddewis a dewis llysieuol). Nid yw rhai awdurdodau lleol, gan gynnwys Sir Gâr, yn darparu opsiynau o gwbl i'w plant. Unigolion sy'n gyfrifol am gyfuniadau o fwyd rhyfedd ac anghyffredin. Cynigir seigiau ochr amrywiol i bob disgybl gyda'i bryd o ddewis, ac er y bydd ambell ddisgybl yn dewis cyfuniadau anghonfensiynol, mae'r ysgol yn ddigon bodlon â hyn ar yr amod eu bod nhw'n bwyta'u bwyd.
10. Roedd rhieni'n awyddus i ddiolch i'r staff am bopeth y maen nhw'n gwneud dros y plant ac i ddweud pa mor hapus y mae eu plant yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin.

Diolch i bawb a gyfrannodd sylwadau i'r fforymau hyn. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gennych a gobeithiwn y byddwch yn sylwi ar y gwelliannau yn y meysydd hyn yn fuan. Fodd bynnag, os ydych yn parhau i bryderu neu os oes gennych fwy o sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â mi yn yr ysgol i'w trafod ymhellach.

Bydd y rownd nesaf o gyfarfodydd grwpiau ffocws rhieni yn cael eu cynnal yn ail hanner tymor y gwanwyn.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn diffuant,

Mr Ceri Scourfield
Pennaeth